**Cofnodion Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig Cymru**
7 Gorffennaf 2010 Ystafell Gynadledda'r Comisiwn Coedwigaeth, Adeiladau'r Llywodraeth, Dolgellau
11am – 3.30pm

| | | |
|---|---|---|
| Cadeirydd: | Caryn Le Roux (CLR) | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| Yn bresennol: | Catherine Shellswell (CS) | (Plantlife) |
| | Charles Morgan (CM) | (Pori Natur a Threftadaeth) |
| | Hilary Miller (HM) | (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) |
| | Clare Burrows (CB) | (Cyngor Cefn Gwlad Cymru) |
| | Dave Lamacraft (DL) | (RSPB) |
| | Gethin Davies (GD) | (Parc Cenedlaethol Eryri) |
| Cofnodion: | Frances Gillett (FG) | (Llywodraeth Cynulliad Cymru) |
| Ymddiheuriadau: | Rosie Carmicheal | (Cyngor Sir Caerfyrddin) |

## 1. Cyflwyniad

Adolygodd CLR gylch gwaith y grŵp yn fyr, a sut mae'n cymryd ei le yn system y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

Mae'r Cydbwyllgor Gwarchod natur wedi cynnull grŵp Tir Ffermio Isel i'r DU i weithredu fel grŵp coladu i'r targedau BAP tir ffermio yn Lloegr a'r Gweinyddiaethau Datganoledig. Yr agwedd ar hyn o bryd yw y dylai targedau Cymru barhau i fwydo i dargedau'r DU ar BARS am y tro.

Disgrifiwyd rôl y Grŵp Adrodd a Gwybodaeth Bioamrywiaeth a'r Grŵp Cynghori ar Ymchwil Bioamrywiaeth, fel y maent yn perthyn i system Pwyllgor Llywio'r DU ar gyfer proses y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

Mae'r Cadeiryddion Grwpiau Ecosystem hefyd yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn. Mae'r agendâu a'r cofnodion i'w gweld ar: http://www.biodiversitywales.org.uk/bap_in_wales-27.aspx a dylech sgrolio i lawr at gyfarfodydd y Cadeiryddion.
Roedd y cyfarfod diwethaf, a gynhaliwyd ar 27 Ebrill, yn cynnwys trafodaethau am Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol sy'n cael ei ddatblygu, targedau'r Strategaeth Amgylcheddol, a'r adolygiad o Gynllun Rheoli Bioamrywiaeth yr Ystâd Gefnffyrdd, y byddai angen diweddaru rhywfaint arno yng nghyswllt gwrychoedd. Yn dilyn o'r cyfarfod hwn roedd CLR wedi cael rhai taflenni cynghori 'Roadside Trees and Hedges' oddi wrth y DET. Adolygwyd hyn gan y grŵp.
Nododd GD fod y daflen yn llawdrwm a bod hynny'n gallu annog rheoli ansensitif gan dirfeddianwyr yn dawel bach. Roedd HM yn awyddus i annog rheoli coed mewn modd sensitif. Nododd GD fod hyn yn gostus. Cydnabu CLR fod angen gweithredu mewn ffordd bragmatig.
Yn deillio o'r drafodaeth hon cytunwyd fod angen i'r grŵp hwn ysgwyddo rôl Gyfathrebu, boed hynny drwy grŵp Gorchwyl a Gorffen, Is-grŵp neu unigolyn

yn arwain.  Fodd bynnag, mae cael rhagor o aelodau ar y grŵp yn dyngedfennol fel bod modd cyflawni mwy.  Oherwydd diffyg personél ar y grŵp penderfynwyd pennu unigolion i arwain.

Cytunodd **CLR** i ymgymryd â'r rôl Gyfathrebu.

2. **Cofnodion a phwyntiau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

Cadarnhawyd y cofnodion ac roedd y pwyntiau gweithredu i gyd un ai wedi'u cwblhau neu'n cael eu cario ymlaen gan roi sylw iddynt yn y cyfarfod hwn.

- Rhoddodd CLR wybodaeth ddiweddaru ynglŷn ag ymchwil a datblygu. Mae gan Defra ffrwd waith ymchwil a datblygu sy'n cynnwys bioamrywiaeth, ac mae grwpiau Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin y DU wedi llwyddo i gyllido ymchwil drwy'r dull hwn.  Mae gan Lywodraeth y Cynulliad Swyddog Polisi, a rhan o'i rôl yw llunio cysylltiadau â'r rhaglenni ymchwil hyn.  Ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda PBC i sefydlu proses er mwyn i'r Grwpiau Ecosystem fwydo syniadau i Defra, neu gyflwyno sylwadau ar gynigion ymchwil. Dylai hyn roi mwy o gyfle inni i awgrymu prosiectau ymchwil a datblygu a chymryd rhan fwy rhagweithiol.

**CB** i ymgymryd â'r rôl arwain ar ymchwil a datblygu ac edrych drwy'r prosiectau ymchwil a dethol prosiectau sy'n berthnasol i'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig i gyflwyno sylwadau arnynt.
**CLR** i ymchwilio i'r broses ymchwil a datblygu i'r dyfodol a sut y byddem ni'n llunio cais.

- Gosod adnoddau'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig ar wefan PBC.

**CLR** i wneud hyn erbyn y cyfarfod nesaf.

- Materion polisi – ynglŷn ag adolygu'r ddeddfwriaeth Gorchmynion Cadw Coed.

**CS** i siarad â Ray Woods a Alan Hale er mwyn llunio rhestr o goed a chennau (rhywogaethau adran 42) a allai elwa o ehangu'r ddeddfwriaeth Gorchmynion Cadw Coed.
**CLR** i gylchredeg y ddogfen 'amddiffyn drwy bolisi a deddfwriaeth' er gwybodaeth.

- Grantiau bach Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer gwaith cadwraeth – ariannwyd prosiect Trefrane drwy'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig y llynedd.  Mae'r grant yn debygol o fod ar gael eto yr hydref hwn.

**CLR** i ofyn i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol am adroddiad cryno ar brosiect Trefrane.
**PAWB** i baratoi ar gyfer prosiectau posibl £8000 pedwar mis yn y dyfodol.

**CLR** i gylchredeg y fanyleb pan fydd ar gael.

- Cysylltu rhywogaethau – yn dal i ddisgwyl am wybodaeth gyfeirio o ran gweithredu.

**DL** i fynd ar ôl hyn ac asesu beth sy'n berthnasol i'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig.

3. **Amcanion y DU a thargedau i Gymru: materion yn codi**

Mae'r targedau cyfredol i Gymru fel y maent yn ymddangos ar BARS.

Mae 'hen' grwpiau Cynllun Gweithredu ar gyfer Cynefin (HAP) y DU yn parhau i gwrdd fel fforymau technegol – ond nid oes sicrwydd pa mor hir y bydd hyn yn parhau gan nad oes ganddynt gylch gwaith ffurfiol yn strwythur cyfredol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth.

- Gwrychoedd
- Ymylon Caeau Âr

Nid oes aelodau o'r grŵp wedi bod i'r naill na'r llall o'r rhain yn ddiweddar. Fodd bynnag, mae ganddynt is-grwpiau cyfathrebu ac ymchwil a datblygu ac mae angen inni gadw llygad ar y rhain. (Mae grŵp Gwrychoedd HAP yn cael ei alw'n 'hedgelink'.)

**CB** i barhau i fynd i'r cyfarfodydd fel sy'n bosibl. CLR i gadw llygad ar y cofnodion.

- Perllannau Traddodiadol

Rhoddodd HM wybodaeth ddiweddaru am Berllannau Traddodiadol. Mae grŵp llywio HAP wedi cyhoeddi 'dogfen waith' ar yr HAP. Mae i'w gweld ar y wefan www.orchardnetwork.org.uk. Mae 51% o'r perllannau yn Lloegr mewn cyflwr ffafriol. Ni wnaed unrhyw gynnydd yn denu arian ar gyfer mapio perllannau. Mae gan Sir Fynwy arian ar gyfer prosiectau arolygu sy'n gydnaws â PTES. Gallai'r Cyngor Cefn Gwlad ddefnyddio gwirfoddolwyr i arolygu a defnyddio adnoddau technegol i greu mapiau pe bai rhywun arall yn arwain y gwaith.

Nododd GD fod Parc Cenedlaethol Eryri yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor ar brosiect perllannau, lle bydd arolygon yn cael eu cynnal. Gofynnodd HM am i unrhyw waith arolygu ddefnyddio dull PTES, gan fod angen inni hyrwyddo methodoleg gyffredin er mwyn casglu data mewn modd cyson.

**HM** i e-bostio manylion arolygu PTES at GD, i'w trosglwyddo i brosiect Perllannau Parc Cenedlaethol Eryri.

Nododd GD y byddai'n ofynnol i dirfeddianwyr sy'n cael arian drwy'r Prosiect fynd i Hyfforddiant Rheoli Perllannau.

**HM** i ymchwilio i gyswllt/mewnbwn i'r hyfforddiant hwn.

- **Dulliau arolygu safonol**

Yn dilyn o hyn trafodwyd y dulliau arolygu safonol y mae'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig am eu hyrwyddo fel rhan o'n cynlluniau gweithredu.

Gwrychoedd – roedd CLR wedi cael sylw oddi wrth Rosie Carmichael ynglŷn â phryder y gallai Arolwg Gwrychoedd hedgelink fod yn rhy gymhleth i'w roi ar waith gan wirfoddolwyr. Bu CB â rhan yn y gwaith o gynhyrchu'r Arolwg Gwrychoedd gwreiddiol, a chytunodd i drafod hyn/ymchwilio i symleiddio'r broses. (DS Bydd OPAL – labordai awyr agored, yn hyrwyddo arolwg gwrychoedd gan wirfoddolwyr yn hydref 2010, ac maent wedi bod yn trafod methodoleg gyda hedgelink).
**CB** i drafod y pryderon gyda RC ac adolygu methodoleg yr Arolwg Gwrychoedd.
**CS** i ddod o hyd i'r dull arolygu gwrychoedd a'u gwtogi, a'i anfon at CB.

Perllannau Traddodiadol – mae PTES wedi datblygu methodoleg syml i'w ddefnyddio gan wirfoddolwyr. Mae'r Grŵp Ecosystem Tir Fferm Amgaeedig yn bwriadu hyrwyddo'r dull hwn hefyd.
**HM** i gylchredeg manylion methodoleg arolygu PTES i'r grŵp ac i CB.

Ymylon Caeau Âr – mae'r arolygon yn fwy arbenigol, mwy na thebyg na chaent eu cynnal gan wirfoddolwyr. Hefyd, mae llai o'r cynefin hwn. Fodd bynnag, dylai fod dull monitro i'w ddefnyddio yn y dyfodol ar Glastir ac mae'r Gwasanaeth Datblygu a Chynghori Amaethyddol (ADAS) wedi gwneud rhywfaint o waith ar ddull o arolygu ymylon caeau âr ar gyfer grŵp llywio ymylon caeau âr HAP.
**CLR** i siarad â James Skates am fonitro Glastir**.**
**CB** i ymchwilio i waith ymchwil ADAS.
**CB a DL** i ymchwilio i ddulliau arolygu ymylon caeau âr pan fyddant yn edrych ar y Cynllun Gweithredu.

Dywedodd FG y dylem sicrhau fod canlyniadau arolygu yn cael eu bwydo'n ôl i un system.
**CLR** i gynnwys hyn yn y cynlluniau gweithredu.

- **Cyfathrebu**

Amlygodd y gweithdai LBAP fod angen inni wella cyfathrebu'r grŵp ag LBAPs. Awgrymodd HM y dylem fwydo i gynhadledd flynyddol PBC/LBAP ym mis Medi. Gallem gyd-drefnu â chadeiryddion Grwpiau Ecosystem eraill i fynd i gynhadledd LBAP gyda phoster yn tynnu sylw at ein pwrpasau a'n cysylltiadau.
**CLR** i siarad â Julia Korn am Gynhadledd PBC.

Roedd Diana Reynolds wedi dweud y gallai arian fod ar gael efallai i argraffu taflenni gwrychoedd a gynhyrchwyd gan hedgelink.
**CLR** i fynd ar ôl hyn.

Y camau gweithredu i'r dyfodol i gynnwys cynhyrchu tudalennau gwe, ac o bosibl gynhadledd/seminar, ond y peth pwysicaf yw siarad wyneb yn wyneb â phobl am ein blaenoriaethau.

## 4. Cynlluniau Gweithredu

Amlinellodd CLR y cynnydd hyd yma.  Mae cynlluniau drafft wedi cael eu llunio ar gyfer Gwrychoedd a Pherllannau Traddodiadol, a chafodd y rhain eu trafod yng nghyfarfod is-grŵp o'r Grŵp hwn ym mis Mai.  Mae a wnelo'r rhan fwyaf o'n hamcanion strategol â chyfathrebu, ymchwil, polisi ac ati.  Dangoswyd y cynlluniau i gynrychiolwyr LBAP mewn gweithdai a gynhaliwyd ym mis Mai, gyda pheth adborth defnyddiol. Mae angen gweithredu trosfwaol o ran cynnal a chadw, rheoli ac adfer cynefinoedd, a fydd yn caniatáu i LBAPs fwydo'u gweithredu yn ôl i'r cynlluniau hyn, gan ein galluogi ninnau i gasglu eu hadroddiadau ynghyd.

Nid oes cynllun hyd yma ar gyfer Ymylon Caeau Âr.

Cafwyd llawer o drafod am gamau gweithredu i'w cynnwys yn y cynlluniau: e.e. gwahodd contractwyr awdurdodau lleol i sesiynau hyfforddi, annog swyddogion LBAP i gael yr ALlau i blannu mwy o wrychoedd.

**DL** i ddatblygu cynllun gweithredu Ymylon Caeau Âr gyda mewnbwn gan CB a CS.
**PAWB** i edrych ar y cynlluniau gweithredu a darparu mewnbwn cyn diwedd Gorffennaf. Hefyd, byddai gwirfoddolwyr i arwain y gweithredu yn cael eu croesawu.
**CLR** i ymgorffori adborth pellach yn y cynlluniau Gwrychoedd a Pherllannau Traddodiadol, a'u hanfon at PBC er mwyn ymgynghori.

Cafwyd trafodaeth hefyd am flaenoriaethu camau gweithredu ar gyfer meysydd/rhywogaethau penodol.  Hefyd, rhywogaethau dangosol fel cennau mewn gwrychoedd a rhywogaethau perllannau.

(DS Ers y cyfarfod mae hyn wedi dod yn fwy amlwg a bydd yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.)

**CS** i restru'r rhywogaethau ymylon caeau âr a chreu rhestr lleoliadau/rhywogaethau âr i Gymru (cnydau nad ydynt yn cael eu chwistrellu).

## 5. Y diweddaraf am Glastir

Mae dogfen Elfen Cymru Gyfan wedi mynd i Ewrop.  Mae'r hyfforddiant i ffermwyr ar y gweill.  Mynegwyd pryder ynglŷn â safon yr hyfforddiant hwn.

**FG** i anfon cyfeiriadau e-bost David Morris a Laura Griffiths at CB a CS er mwyn i CB/Ray Woods roi gwybod am wybodaeth anghywir yn hyfforddiant IBERS/FWAG.

Roedd mapiau'r Elfen wedi'i Thargedu wedi cael eu cwblhau ond byddant yn cael eu hadolygu'n flynyddol.  Bydd CB yn awgrymu mis Mehefin.

Barnwyd fod y canllawiau technegol a gynhyrchwyd ar gyfer ffermwyr yn rhesymol er fod angen newid rhai lluniau.  Mae manylion technegol anghywir wedi cael eu bwydo'n ôl.

Mynegodd aelodau'r grŵp bryder unwaith eto nad yw'r adnodd Swyddogion Polisi yn ddigonol i ddelio ag elfen wedi'i thargedu Glastir.  Rhoddodd CS adborth anecdotaidd am yr anawsterau a wynebwyd yn Lloegr oherwydd diffyg mewnbwn gan Swyddogion Polisi.

**CM** i siarad â Spencer Conlon, Gary Haggaty a Diana Reynolds am Swyddogion Polisi.
**CLR** i ymchwilio i ffyrdd o lobïo ynglŷn â mater Swyddogion Polisi – grŵp polisi?

## 6. Y diweddaraf am bolisi

Dim cynnydd ers y cyfarfod diwethaf, er bod amryw o faterion dan ystyriaeth. Mae'r grŵp polisi i fod i gwrdd nesaf gyda chylch gwaith tir fferm amgaeedig ar 21 Hydref felly bydd angen diweddariad cyn hynny.

## 7. Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol

Rhoddodd CLR y cefndir i Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol yn fyr, yna cafwyd trafodaeth.  Mynegwyd pryderon ynglŷn â sail y fframwaith o ran tystiolaeth, a'r methiant i gydnabod gwaith llwyddiannus yn y gorffennol.

Bydd yr ymgynghoriad ffurfiol yn cael ei lansio yng nghynhadledd PBC ym mis Medi.

**CLR** i godi pryderon ynglŷn â Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol gyda Nia Evans/Diana Reynolds.

## 8. Unrhyw Fater Arall

**FG** i gael Sean McHugh i roi'r pwyntiau gweithredu a'r cofnodion hyd yma ar wefan PBC.

## 9. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Awgrymwyd 10 Tachwedd yn Aberystwyth.